



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Cystadleuaeth 10: barddoniaeth bl 5 i 6

Diolch yn fawr iawn i *Aderyn Glas*, yr unig a fentrodd gystadlu. Cefais bleser yn ei gwmni wrth iddo fy nhywys drwy ei filltir sgwâr, gan fwynhau rhai o'r delweddau a'r cymariaethau fel hwnnw am y teimlad bod cymwynasgarwch y gymuned yn ein taro fel ton o wres. Efallai y gallai *Aderyn Glas* feddwl chydig rhagor am rhythm ei linellau a cheisio bod ychydig yn fwy cynnil, ond mae yma ddawn disgrifio hyfryd a llais annwyl, sy'n llawn haeddu'r wobwr.

Cystadleuaeth 11: barddoniaeth bl 7 i 9

Dyma gystadleuaeth boblogaidd, a diolch yn fawr iawn i'r 19 a anfonodd eu cerddi. Mae'n wych cael cyfle i ddarllen cynifer o gerddi difyr a dyfeisgar.

Daeth sawl gwahanol fath o gyfrinach i'r gystadleuaeth: cyfrinachau'r Nadolig mewn cerdd grefftus gan Miss Corn Cudd, a'r tro braf yn y gynffon; a hefyd Cysgod, sy'n ehangu i gyfleu neges fwy difrifol erbyn y diwedd glo dramatig.

Trafod y teimladau a ddaw wrth geisio cadw cyfrinach a wna Ysbeidiau Heulog mewn ffordd gynnil a bachog, Malwr Awyr gyda thro annwyl yn y gynffon, Fleur de Lys yn fedrus ar fydr ac odl, a Pinafal gyda delweddau gwreiddiol a thrawiadol.

Rhannu eu cyfrinachau ag anifeiliaid, wedyn, a wna Ynysybwl a Hector Hugo, ac mae rhyw anwylydeb ysgafn, digrif bron, yn perthyn i'r rhain. Dirgelwch ac ofn, ar y llaw arall, sydd yng ngherddi Lotus y Racŵn a Sibrwd, ac mae'r ddau yma yn fedrus iawn yn creu awyrgylch.

Penderfynodd Tedi Blin a a Rhiwbob archwilio natur cyfrinachau eu hunain gan eu crynhoi'n dda a sylwgar. Stori ddramatig, lawn delweddau a thyndra, a gawn gan Blodau Melyn 1924 wedyn. Gwnaeth Olew Ffydd gryn gamp yn creu cerdd acrostig, er nad oeddwn i'n deall pob llinell yn iawn. Gwnaeth Rhosyn ryw beth tebyg ond yn fwy llwyddiannus, gan lwyddo i odli hefyd ac adrodd stori ddigri – ac o'r herwydd, mae Rhosyn yn agos iawn at y dosbarth cyntaf.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Mae llawer i'w ganmol ym mhob un o'r cerddi hyn. Ond dyma ddod at y goreuon nesaf, a oedd yn dangos rhyw wreichionyn ychwanegol o ddyfeisgarwch neu grefft neu ddoniolwch neu anwyldeb, ac felly'n aros yn hirach yn y cof.

Mae cerdd Mr Jones yn delynegol dros ben, yn cymharu cyfrinachau byd natur â chyfrinach fewnol, bersonol gan ddefnyddio mynegiant trawiadol. Mae hon yn gerdd atmosfferig dros ben.

Gan Evie cawsom gerdd ddirdynol, deimladwy am salwch taid yr adroddwr, a'i 'byd yn dadfeilio' yn ei sgil. Mae'r olygfa ohono'n ysgrifennu nodyn i'w wyres yn dweud wrthi am fod yn ddewr yn deimladwy dros ben. Efallai nad yw ail hanner y gerdd yr un mor llwyddiannus ond mae hon yn gerdd go arbennig er hynny.

Un o gerddi mwyaf gwahanol a gwreiddiol y gystadleuaeth yw cerdd Mr Cŵl. Mae'r bardd yn ymddiheuro i'w dedi am ei guddio 'pan ddaw ffrindiau draw i'r tŷ'. Wrth gyffesu iddo nad yw'n dymuno'i ypsetio ac y bydd yn ei garu 'gydol f'oes', rhaid addef hefyd mai 'cŵl yw cri ein harddegau'. Drwy wneud hynny mae'n portreadu'n gain y trothwy hwnnw rhwng plentyndod ac arddegau, a'r tyndra a'r boendod a ddaw'n anochel wrth dyfu. Ond, na phoener – caiff y tedi ddod allan eto 'pan aiff y bois'! Gwych iawn.

Y Ddraig sydd ar ôl. Roedd hi'n agos iawn rhwng Mr Cŵl a'r Ddraig ar frig y gystadleuaeth; mae'r ddau'n dra dyfeisgar ond mewn gwahanol ffyrdd. Ein rhybuddio rhag yr anghenfil dirgel sy'n byw o dan y gwely a wna'r Ddraig, a hynny drwy gyfres o ddisgrifiadau gwreiddiol, a digri iawn hefyd ar brydiau: mae'n 'drewi o sbrowts a mwg budr / a'i het wedi gorchuddio gyda rhew fel gwydr.' Roeddwn i'n gallu gweld yr anghenfil yma'n glir rywsut, diolch i'r disgrifiadau, a champ y Ddraig yw creu darlun cyfan, byw a bywiog. Chwarddais ar y cynllun wrth gloi i ddal yr anghenfil 'mewn sach bin bag.'

Mae angen rhoi clod uchel felly i Rhosyn, Mr Jones ac Evie. Pendiliais yn hir iawn rhwng Mr Cŵl a'r Ddraig, a gallai Mr Cŵl yn hawdd fod wedi ennill. Ond am gerdd ddychmygus, ddigri, fyrlymus, Y Ddraig biau'r wobr gyntaf a Mr Cŵl yn ail agos iawn.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Cystadleuaeth 12: Barddoniaeth bl. 10 i 13

Dau a ddaeth i'r gystadleuaeth hon ond roedd safon y ddwy gerdd yn uchel, felly diolch yn fawr iddynt.

Math gwahanol a digon dyfeisgar o 'syrthio' a gafwyd gan Sioni – sef, fel y mae'r llinell olaf yn ei ddatgelu, y tymhorau'n 'syrthio mewn i'w lle'. Tan y llinell olaf honno, doeddwn i ddim yn hollol siŵr beth oedd perthynas y gerdd â'r testun – ond mi wnes ei mwynhau'r un modd. Cerdd ar fydr ac odl sydd yma, yn llawn o ddisgrifiadau byw o bob tymor yn ei dro: tywod yn esmwyth ar groen yn yr haf, a'r tân yn 'aros yn amyneddgar' i gael ei gynnau yn yr hydref. Mae hi'n gerdd syml iawn yn hynny o beth, ac yn swynol hefyd, ond efallai fy mod yn disgwyl iddi ddweud rhywbeth ychwanegol erbyn y clo.

Mae'r tywydd a'r tymhorau'n chwarae rhan bwysig yng ngherdd *Treorllwyn* hefyd, ond un tymor penodol y tro hwn, sef yr hydref. Dail y coed sydd yma'n disgyn oddi ar y brigau, a hwythau'n 'ddawnsywyr mud'. Mae'r dweud yn ddigon syml yma hefyd ond mae ychydig mwy o dreiddgarwch a sylwgarwch, ac ymgais at ddefnyddio delweddau'r gerdd i ddweud rhywbeth mwy am bethau y tu hwnt i'r gerdd ei hun: 'prydfferthwch dros dro' yw hwn, medd Treorllwyn. Eto i gyd mae gobaith wrth gloi, gan y daw amser y 'dawnsywyr llachar' i ddychwelyd yn eu cryfder drachefn.

Drwy gadw at un tymor ac un olygfa, llwyddodd *Treorllwyn* i roi mwy o ddyfnder i'r darlun, ac mae'r gerdd yn fwy testunol hefyd gellid dadlau. Llongyfarchiadau i *Sioni* am gerdd swynol, fywiog, ond *Treorllwyn* sy'n mynd â hi.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Cystadleuaeth 13: Y Gadair

Diolch yn fawr iawn i'r pedwar ar bymtheg a anfonodd gerddi, gan wneud hon yn gystadleuaeth dda o ran nifer a safon. Cafwyd amrywiaeth eang o bynciau, ac amrediad da hefyd o'r cyfarwydd, traddodiadol i'r arbrofol a mentrus. Braf dros ben, at hynny, oedd gweld cymysgedd o gerddi ar gynghanedd ac yn y mesurau rhydd, a gafael y beirdd caeth a rhydd fel ei gilydd yn o gadarn ar eu crefft.

Mae'n gas gen i orfod gosod cerddi yn nhrefn teilyngdod achos mae'n rhaid i rywun fod ar y gwaelod. Ond mae'n bwysig pwysleisio bod y safon yn eitha gwastad drwyddi draw. Doedd neb yn ddi-glem nac yn wan – mae rhinwedd ymhob un o'r cerddi hyn ac fe ddylai'r beirdd fynd nôl atynt a gadael iddynt weld olau dydd. Nid yw'r cerddi ar ddechrau'r ail ddosbarth o reidrwydd yn nhrefn teilyngdod felly. Ar ben arall y gystadleuaeth, cododd rhyw ddau neu dri i'r brig yn o fuan, ac aros yno.

Yr ail ddosbarth

Deialog ar gynghanedd a gafwyd gan *Lleisiau'r nos*, rhwng dau gymydog dros ffens yr ardd gefn. Mae'n ddyfeisgar ac yn ddigri ar brydiau ond braidd yn *Carry On* y ces i'r ergyd. Mae'n ymarferiad da a ches hwyl yng nghwmni'r bardd, ond nid yw'n ymgiprys am y gadair gwaetha'r modd.

Ces fwynhad yng nghwmni llais telynegol tafodieithol *Un dau tri*, yn enwedig yn y gerdd agoriadol a'i dweud cofiadwy am 'gastanwydden o gwmni / i unawd o blentyn'. Yn anffodus doeddwn i ddim wir yn deall sut roedd y ddwy gerdd 'Whare Mob' ar y diwedd yn perthyn i weddill y casgliad, a doedd y cerddi hyn ddim yn taro deuddeg cystal chwaith.

Siarad â'i phlentyn a wna *Plentyn cael* wrth ddifaru esgor arno i ddechrau ond dod i deimlo nad 'plentyn siawns' mohono ond 'plentyn cael', ac mae'r pennill sy'n ailadrodd ymadroddion yn dechrau â 'cael' yn uchafbwynt. Ond fel arall mae angen cynilo a thorri cryn dipyn. Mae'r disgrifiadau ar dro yn rhy fiolegol foel, dro arall yn orddramatig, ac felly nid yw'r darllenydd yn credu'n llwyr yn y llais.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Cerdd am y ffenestr yn Eglwys yr Holl Saint, Ystumllwynarth er cof am yr wyth o'r criw bad achub a foddodd wrth geisio achub llong ddrylliedig yn 1947 sydd gan *Lansio*. Mae'n bortread trawiadol a dramatig ac mae llinellau arbennig yma yn enwedig yn hanner cyntaf y gerdd: 'breuddwydion yn ysgyrion ar greigiau Pwynt y Sger. Dyna lle mae'r vers libre cynganeddol yn llwyddiannus dros ben – ond dro arall mae'r gynghanedd yn dylanwadu gormod ar y dweud ac yn cymylu'r ystyr. Rwy'n ofni bod *Lansio* wedi rhuthro braidd tua diwedd y gerdd.

Cael ei hysbrydoli gan berfformiad o Offeren Heddwch Karl Jenkins a wnaeth *Cantores*. Mae yma gyffyrddiadau hyfryd, fel 'staccato'r crosied du /fel bwled farwol', ond dro arall mae'r mynegiant ychydig yn rhy gyffredin ac mae toriadau'r llinellau yn digwydd bron ar hap. Efallai fod gorddefnydd o'r frawddeg bwyslais/annormal yma hefyd, ond mae yma hefyd deimladrwydd a sylwedd. Mwynheais yr olygfa o ddod allan, drannoeth y gyngerdd, i gael Kaffee und Kuchen, ac efallai mai yma yr hoffwn i i'r gerdd gloi.

Mae gafael dda ar gynghanedd gan *Lily'r maes*, a thipyn o syniadau difyr a gwreiddiol hefyd wrth iddi 'chwilio' am wahanol bethau ymhob cerdd – am amser mwy diniwed, am iechyd meddwl, am gyfiawnder i fyd natur a chefn gwlad. Efallai er hynny mod i'n clywed llais mwy unigryw yn y gerdd rydd ar y diwedd, er bod honno'n gorffen ychydig yn orddramatig. Mwynheais yr amrywiaeth o ran pynciau a mesurau yn fawr. Mae yma gyffyrddiadau cynganeddol da ond byddai'n dda i Lily'r maes wneud ychydig fwy o ddewis a dethol trawiadau er hynny.

Braf oedd cael cyfarfod hen gyfaill yn *Pinocchio*, a cherdd yr wyf wedi ei gweld o'r blaen, ar ffurf arall. Ein tywys ar daith drwy hanes y cosmos cyfan a wna'r bardd, ond diolch iddo am gynilo a chwtogi ers y tro diwethaf inni gwrdd. Erys rhai o'r pethau gorau am y gwaith, megis y disgrifiad o fflach dechreuad y bydysawd fel 'Kodak y cynfyd'. Efallai y tro hwn y teimlwn fod angen mwy o undod delweddol drwy'r gerdd, bellach – ond mae hi'n sicr wedi gwella'n arw i'm tyb i ac yn uchel yn y gystadleuaeth.

Mae *Dot Com* hefyd yn cynganeddu'n rhugl ac yn rhwydd – rhy rwydd ar adegau, efallai, ac angen oedi'n hwy dros ambell linell a thrawiad? Yn wir rwy'n credu ein bod yma yng nghwmni un o gynganeddwyr disgleiriaf y



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

gystadleuaeth, ond mae posibilrwydd iddo frysio'r ymgais hon yn agos at y dyddiad cau, fe ddichon. Hytrach yn simplistaidd a chyfarwydd yw'r genadwri hefyd, yn anffodus, a'r haerriad cyfarwydd bellach ein bod yn gaeth i sgriniau ein ffonau ac i dechnoleg yw prif fyrdwn y gerdd. A ellid ceisio cymhlethu neu herio'r syniad hwnnw fymryn? Wedi dweud hyn oll, mae yma gyffyrddiadau arbennig, fel y disgrifiad ohonom yn hedfan 'ar ewin awel' i ganol pair y we, neu'r honiad ar y diwedd 'mae ateb yma eto / mewn cae ym meinwe ein co'.

Cynganeddu'r un math o gwestiynau a gofidiau a wna *Ar goll*, ond ar *vers libre* yn lle hynny. Ni chefais mo f'argyhoeddi yma chwaith gan ymdriniaeth unochrog braidd â'r testun: a yw pawb sy'n sgrolio'r sgrin ac yn dilyn addewid amryw ddylanwadwyr mewn 'ryw Athen rithwir' wir yn 'garcharor'? Mwy llwyddiannus o'r hanner dybiwn i yw'r englynion milwr yn yr ail gerdd, sy'n gwreiddio'r pryderon hynny o'r gerdd gyntaf mewn stori a chwestiynau personol, sy'n creu argraff fwy dirdynol. Y rhieni sy'n holi 'pwy a ddaeth ar hap i ddwyn' eu plentyn, a mwya sydyn rydw i'n gallu cydymdeimlo ac uniaethu gymaint yn well â'r pryderon hynny.

Yn sicr, yng nghwmni *Dot Com* a'r cystadleuydd nesaf, *Marina*, rydym yn gwthio tuag at y dosbarth cyntaf. Cymharu'r hen bererinion a anelai am Ynys Enlli, 'am loches' i ganol nosweithiau sy'n cynnig 'adleisiau' i'w 'gweddiâu amhersain', â'r teithwyr modern a ddaw yno 'nid i geisio glanhad' ond 'i elwa o ddarganfod / hedd a llonyddwch'. Mae'n gerdd daclus a chrwn, a chanddi reolaeth dda dros dempo a mynegiant, ond dydw i ddim yn gwbl siŵr ei bod yn dweud rhyw lawer.

Ym mhen uchaf yr ail ddosbarth felly y mae *Pinocchio*, *Dot Com*, *Marina* ac yna *Daniel*, sydd ar ei frig. Ces fy swyno gan Daniel ac ar un adeg roedd y gerdd hon yn dra uchel gen i yn y gystadleuaeth. Mae yma ganu swynol, hunanfeddiannol, cynnil, a chyffyrddiad ysgafn yn sicr sydd gan y bardd. Ceir anwyldeb yma hefyd, a gwên fechan wybodus. Ond cystal imi addef fod rhywbeth ychydig yn rhy gynnig gen i yma, i'r graddau ei bod yn anodd gen i ddeall beth sydd dan sylw gan y bardd. Ymddiheuriadau llaes iddo neu iddi am fetu deall byrdwn y gerdd – o gael ychydig rhagor o gliwiau, posib y deallwn y delweddau unigryw yn well, ac y byddai Daniel yn ymgiprys am y gadair.

Y dosbarth cyntaf



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Cyfres o bum cerdd fer sydd gan *Dofi*, pob un yn gameo, yn olygfa weladwy wedi'i disgrifio a'i dweud yn gelfydd. Mae'r ymadroddi llafar naturiol yn gweddu'n dda i naws storiol y cerddi, a'r adroddwr yn cyfarch rhyw 'ti' – ei gariad, o bosib – yn uniongyrchol. Mae yma fymryn o ddryswch – ai milwr yn un o'r Rhyfeloedd Byd sy'n siarad, ynteu rywun mwy modern? Nid yw'n gwbl eglur i mi. Ond dyw'r dryswch ddim yn ddigon i fennu ar ogoniant delweddau a golgyfeydd yn unigol, ac yn enwedig yr ail gerdd wrth i'r adroddwr 'addoli yn nheml' corff ei gariad cyn hwylio i'r drin, ac yna'n dal yr atgof o dan y golau ac yn 'gweld llewyrch llyged'.

Gyda *Holwr* rydym yng nghwmni cynganeddwr medrus. Eto dyma gynganeddwr medrus, ond mae'r delweddu'n dreuliedig weithiau, a cheir gormod o gynganeddu haniaethau. Mewn gair, dydi *Holwr* ddim eto yn gwneud cyfiawnder barddonol â'i ddawn gynganeddol ddigamsyniol. Drwy osgoi arddull rhy hynafol ac ymadroddion llanw, gallai *Holwr* fod yn gystadleuydd peryglus. Mae ganddo rai cynganeddion hyfryd, fel honno am gân ei dad a 'dylanwad ei lawenydd', neu'r llinell glo sy'n honni mai'n hen ddawn ni yw llwyddo i fynd 'heibio i rwyg' a 'dyfalbarhau'.

Aros â'r cynganeddwyr a wnawn gydag *Abercuawg*, sy'n gwneud ambell gamgymeriad blêr ond dro arall yn gynganeddwr cain dros ben. At hynny, mae'n gallu adeiladu delweddau fesul cwpled yn fedrus. Disgrifir hanes fel hyn: 'Pob dalen yn ddolennau un cylch, nad yw byth yn cau'. Dewisodd destun brawychus, gan edrych yn ôl ar hanes llofruddiaeth April Jones fechan ger Machynlleth yn 2012, ond mae'n ymdrin â'i bwnc yn sensitif a theimladwy: 'Mae'r ing ym mêr ieuengoed, mae murmur y cur yn y coed'. Ond mae rhaid i Abercuawg gyfrif ei sillafau yn fwy gofalus!

Eos Eos, yn sicr, yw ymgeisydd mwyaf mentrus ac arbrofol y gystadleuaeth. Diolch iddi am bos geiriol o gerdd wedi ei gosod yn drawiadol ar y ddalen! Atebais yr her yn llawen, ond rhaid imi ymddiheuro i *Eos Eos* am fethu'n llwyr, heb allu dod o hyd i'r ystyr. Mae'n haeddu ei lle yn y dosbarth cyntaf am ei menter a'i dyfeisgarwch.

Cynganeddwr disglair arall yw *Colledig* ac mae'n feistr corn ar gynnal llinellau hirion. Mae ambell gam gwag gramadegol serch hynny. Chwilio am wahanol



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

bethau ymhob cerdd a wna yntau, fel y gwnaeth Lily'r maes: chwilio am ieuenctid, am ystyr, am ddoethineb ac am dylwyth. Mae Colledig ar ei orau ar ei fwyaf cynnil, fel yn yr englyn penfyr aruthrol sy'n chwilio am gred: 'Mae ffordd i'r llan y gwn amdani' – ond 'mae mor syml. Ni[s] c[h]ymrais hi'. Efallai fod angen chydig o ailddrafftio dro arall: mwy heglog a haniaethol yw 'Chwilio am dylwyth', a'r gynghanedd yn arwain y bardd fel ci yn mynd â'i berchennog am dro.

Ys gwn i a ddarllenodd *Pantglas* feirniadaeth arall a sgrifennais yn ddiweddar, lle mentrais fod mor haerllug ag awgrymu bod gormod o gerddi wedi eu llunio am drychineb Aber-fan, neu o leiaf, y dylai unrhyw un a ryfyo ganu ar y pwnc hwnnw bellach sicrhau bod ganddo rywbeth newydd a gwerthfawr i'w ychwanegu yn lle ailadrodd hen ystrydebau? Rhyw amau yr ydw i ei fod wedi darllen honno, a'i fod wedi penderfynu ateb yr her wedi'r cwbl. Oherwydd mae ymgais lew yma i gynnig golwg newydd ar y drychineb drwy gyfrwng villanelle dra chrefftus, sy'n llwyddo ar yr un pryd i fod yn hunanfeddiannol ac yn gyhuddgar: mae'n crisialu rhyw alar tawel dig a ddwyseir yn araf drwy'r gerdd gan batrwm ailadroddus y llinellau: 'fel dwylo'n rhofio, chwiliwn ateb'.

Y brig

A dyma ni bellach yng nghwmni'r ddau yr ystyriais eu gwobrwyo. Dau fardd rhydd, fel mae'n digwydd, a dau sydd wedi dewis thema debyg iawn i'w gilydd sef effaith henaint ac afiechyd y meddwl ar anwyliaid. Mae'r ddau wedi mynd ati mewn modd hynod gelfydd.

Cyfarch ei dad a wna Shoni, fe gredaf, a hwnnw bellach yn henwr, ac yn dioddef o dementia. Mae'r cyffyrddiadau o dafodiaith yn hyfryd: 'wrth i'r cols gwmpo mewn tân gwidw' a dyna chi enghraifft o'r modd y mae'r ieithwedd yn ein tynnu'n nes – yn ein huniaethu o bosib ag iaith a geirfa gynt y tad – ac yn amlygu'r gagendor: mae'r iaith yn methu bellach, mae'r tân yn oeri, y glo'n weddw. Fe'n tywysir fel y tad drwy wahanol olygfeydd: ymweld â hen ysgol y bu'n siarad ynddi unwaith, hen dripiâu ysgol Sul ac atgofion rhyfel, a'r hen feysydd glo. Hanes cymdeithasol a diwylliannol o fewn hanes bywyd un dyn – a'r cyfan fel ei gilydd mewn perygl o lithro i anghofrwydd. Mae lle i gynilo, oes, a hoffwn fod wedi cyrraedd rhyw denouement erbyn y diwedd, ond does dim beio'r dweud celfydd, ysgafn ei gyffyrddiad, iasol ar adegau, a phleser yw bod yng nghwmni'r bardd hwn.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Ar y llaw arall, y fam ac nid y tad sy'n dioddef gan *Yn barod neu beidio*. Mae'r cerddi oll yn ymwneud â chwilio a chuddio a cholli mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a gemau plentyndod fel chwarae 'cwato' yn troi yn fusnes mwy seriws wrth deimlo bod 'pethau'n dechrau chwarae mig â Mam', neu hyd yn oed ei bod yn mynd ar goll, yn 'ddieithryn cyson / yn ei chroen ei hun'. Mae rhywbeth mwy ymatalgar yma o bosib nag yng ngwaith Shoni, a chydbwysedd arbennig o fedrus rhwng disgrifio, cyfleu, delweddu ar y naill law, a myfyrio a meddwl a phwyso a mesur ar y llall. Trwy bryder merch am ei mam, ond bod hithau hefyd yn fam (ac efallai'n fam-gu?) ei hun, cawn drwy'r cerddi hyn hefyd bortread annwyl a theimladwy o'r deinamig amrywiol rhwng tair (neu efallai bedair) cenhedlaeth: y ferch deirblwydd yn chwarae cuddio 'ar lin dy dad-cu', ond yna'r cuddio a wna'r (hen) fam-gu rhag ei merch ei hun er mwyn peidio â chymryd arni bod unrhyw beth yn bod. Mae'r gerdd glo'n agor wrth i'r ddwy iau fynd law yn llaw i chwilio am yr hynaf, ond gan sylweddoli wedyn mai yn ei gilydd y cawn nhw 'Nana': 'yn fy chwerthin' ac 'yn fy stôr gudd o losin' hefyd; mewn arferion bob dydd ac mewn nodweddion corfforol. Ac yna'n raddol gwelwn droad y rhod hefyd wrth i'r adroddwraig deimlo y bydd hithau, ryw ddydd, yn 'cwato' oddi wrth y ferch fach: neu efallai mai dyma lle mae'r argae'n torri, yn y gerdd olaf, a hithau'n gorfod 'cwato' rhag i'r un fach weld dyfnder ei galar am ei mam.

Yn y gemau a'r ystrywiau hyn gwelwn gymhlethdod o gydberthnasau, teimlwn bryderon ac ofnau a hiraeth a chariad a llawenydd, heb i'r bardd orfod unwaith sgrifennu hynny'n rhy blwmp ac yn rhy blaen inni. Mae yno, yn chwarae ar yr wyneb ac yn atseinio, a hynny oherwydd rheolaeth feistraidd y bardd dros ei chyfrwng a'i mynegiant. Mae'r profiad, yn ei onestrwydd ymatalgar, yn gyfarwydd ac anghyfarwydd yr un pryd.

Cystadleuaeth gref felly, a sawl bardd a fyddai'n agos at y brig o drwsio ambell beth yma ac acw. Fel y mae hi, *Shoni* ac *Yn barod neu beidio* sy'n ymgiprys â'i gilydd. Mae *Shoni* yn llwyr deilwng o'r gadair, ac rwy'n ei annog i fynd ati rhag blaen i gyhoeddi ei gerdd er mwyn i eraill gael pleser ohoni. Ond am ei gafael meistraidd ar y chwarae a'r cydberthnasau rhwng tair cenhedlaeth wrth iddynt chwarae mig â'i gilydd yn eu llawenydd, eu tristwch, eu hiraeth a'u cariad, cadeirier *Yn barod neu beidio*.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Cystadleuaeth 14: Triban

Mentrodd pedwar, ac maent oll yn gyfarwydd â gofynion technegol y triban. Stori fer mewn pedair llinell sydd gan *Taryn* ac mae rhywbeth cyfoes, ffres am y dweud. Er bod yr odlau a'r odlau mewnol yn eu lle, mae angen rhoi rhagor o sylw i'r acenion a gwneud gwaith ar y mydr cyn i'r triban hwn ganu.

Aeth Elin a Gwymon ill dau i gyfeiriad digon tebyg i'w gilydd, gan gyfeirio'n benodol at Fae Caerdydd ac at y sefydliad gwleidyddol yno. Un gwleidydd penodol sydd dan lach Elin, sef Andrew R T Davies sydd, yn ôl y triban hwn, yn gwneud 'llond sw' o sŵn. Y Senedd gyfan, ar y llaw arall, sydd gan Gwymon, wrth iddo agor yn delynegol ac yna'r gic ar y diwedd ei fod yn dal i aros i glywed 'am fri ein Senedd ninnau'. Mae gallu dychan ein gwleidyddiaeth a'n gwleidyddion yn beth iach ac i'w annog, ond carwn pe bai'r ergydion hyn ill dwy wedi bod yn finiocach, ac o bosib yn ddoniolach.

Stori fer sydd gan *Cybi*, fel *Taryn*, ond yn ogystal â chanu'n llawer mwy soniarus mae *Cybi* hefyd wedi rhoi inni driban ar gynghanedd gyflawn – cryn gamp ynddi'i hun. At hynny, mae'n eglur ac mae tinc telynegol iddo. Efallai fod yr hanes yn haeddu cyfrwng ychydig ehangach mewn gwirionedd ac mae *Cybi* wedi gorfod gwthio llawer i mewn i bedair llinell yma; ond mae'n gweithio ac yn ddifyr.

Llongyfarchiadau i *Cybi* felly.

Cystadleuaeth 15: Englyn

Samosa: yn anffodus mae angen drafft arall o'r englyn hwn er mwyn cywiro llithriadau o ran treiglo ac o ran y gynghanedd hefyd. Mae'r bai 'carnymorddiwes' ar yr esgyll, gan fod y ddwy linell yn diweddu'n ddiacen, a da fyddai ceisio bod yn fwy diriaethol o ran mynegiant.

Broga bach: englyn annwyl, hiraethus. Efallai fod y sain yn y llinell gyntaf fymryn yn rhy sionc i'r testun, ac mae angen edrych eto ar aceniad y drydedd linell.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Dydw i ddim cweit yn saff fod disgrifiad *Dan Gwely* o'i ddwylo 'di-had' yn taro'r union dant y mae'n gobeithio'i daro, ond hiraeth ac yna lawenydd rhiant wrth gael plentyn sydd yma rwy'n credu. Dydi o ddim yn llifo'n berffaith iawn eto ac i'm clust i dim ond deusill ydi 'garwder' – pe bai'n dri byddai angen ei yngan mewn ffordd go od, efo'r pwyslais ar yr 'w'.

Hen chwarelwr: Hoffais y ddelwedd o 'nentydd heintus' cledrau'r dyn, ond weithiau mae'r gynghanedd yn llywodraethu'n rhy gryf dros y dewis o eiriau, ac nid yw'r drydedd linell yn gynghanedd gywir.

Diolch yn ddiffuant ac annwyl i un Mrs Rowlands, un a fu'n gofalu am bobl ei bro, a wna *Gwalcyn*. Ni chlywaf ac ni welaf gynghanedd rhwng y gair cyrch a'r ail linell, ac mae rhyw ddryswch o ran amser rhwng y paladr a'r esgyll hefyd rwy'n tybio. Byddai'n dda gen i weld gwrthrych yn y llinell olaf – dal beth?

Albrecht/Ilwydyn: englyn am y rhyfel yn Wcrain. Hytrach yn dreuliedig ac amlwg efallai yw'r ddelwedd o'r hen 'faedd' a'i fyddin. Ond mae'r esgyll yn wreiddiol ac yn fedrus wrth ddangos mor hawdd yw inni anghofio'r erchyllter pell wrth glirio'n sgriniau.

Cariad mam: egyr yr englyn hwn yn addawol dros ben gyda phaladr gafaelgar am y 'clywaith o greithiau' ar ddwylo mam. Dylai'r bardd fynd yn ôl i geisio dod â'r ddelwedd i fwcwl mewn ffordd fwy gwreiddiol a llai trwsgl – mewn gair, mewn ffordd sy'n fwy teilwng o'r paladr.

Bu: Rwy'n amau bod gormod o bellter rhwng y gyfatebiaeth yn y llinell gyntaf, ond fel arall mae hwn yn englyn digon taclus am y cynhesrwydd rhwng tad a merch.

Pererin: englyn rhugl, difyr sy'n ymateb i lun enwog Albrecht Durer o'r 'ddwy law yn erfyn'. Efallai nad ydw i'n gwbl siŵr beth mae'n ei ychwanegu at ein gwerthfawrogiad a'n dealltwriaeth o'r llun ond mae'r cynganeddu'n gyhyrog, yn enwedig y drydedd linell.

Rhywun yn defnyddio'i dwylo i wisgo colur yn gymen sydd gan *Martha*, ond bod y colur hwnnw wedyn yn cuddio'i dolur. Mae'r cynganeddu'n fedrus ond



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

efallai fod angen meddwl yn well sut i gysylltu'r llinellau â'i gilydd a gwneud cystrawen yr englyn yn fwy naturiol.

Rwy'n credu mai'r hyn sydd gan *Azad* yw stori wir (ac erchyll) am ddyn yn cael ei arestio ym Mashhad am ddwyn – pa un ai ar gam neu fel arall, nid yw'n berffaith eglur. Mae'r fwyell y mae'n ei hwynebu yn awgrymu y caiff ei gosbi drwy dorri'i law i ffwrdd. Mae'n stori fer drawiadol ond nid yw'n berffaith eglur pam y dewisodd *Azad* ganu ar y pwnc.

Englyn ysgafn a gafwyd gan *Dominic*, am rywun yn gyrru bws i'r Barri ac yn colli rheolaeth ar y cerbyd. Naill ai mae rhywun arall yn codi dau fys arno am hyn, neu mae yntau'n codi dau fys ar rywun arall. Nid yw'r mynegiant yn eglur bob amser ac mae angen osgoi cywasgiadau cystrawennol trwsgl hefyd.

Rhaid imi ymddiheuro'n llaes i *Ludwig*: fe gredaf fod jôc glyfar neu grafog yn cael ei gwneud yma ond fedra i yn fy myw â deall beth ydyw. Mae rhywun yn teipio wrth wisgo menig Almaenig, ac yna mae rhyw ergyd ynghylch enwi ei ddiod yn cappuccino. Os daw *Ludwig* i esbonio'i jôc fe ymddiheuraf i'w wyneb! Ond peryg na fyddai'n newid y canlyniad gwaetha'r modd.

Rhyw stori fer sydd gan *Mair999* hefyd, am ryw Rhys yn rhedeg drwy dref yn dal siswrn a rasel, a rhywun yn gofyn wedyn a yw torri asgwrn yn beth treisgar. Wel, ydi debyg! Mi ddechreuais amau a oedd rhyw gyfeiriadaeth at y Twrch Trwyth yma... ond yn anffodus dyma englyn arall na ddeallais mo'i fyrdwn.

Gweld parhad rhwng cenedlaethau yn nwylo hen wreigan a wnaeth *Llŷn*. Dydi'r 'bu hi'n parhau' ddim cweit yn taro deuddeg gen i ond hoffais yn fawr yr 'ei dwylo / oedd dwylo'i chyn-neiniau' – hyfryd.

Yn anffodus dydi'r rhesymeg a'r gystrawen rhwng paladr ac esgyll *Llysfardd* ddim yn gwneud synnwyr – mae fel pe bai'n dechrau dweud un peth ond yn dweud ei wrthwyneb erbyn y diwedd. Rhaid gochel llinellau mor dreuliedig â 'A'u iasol faith hirnosau' ond mae'r llinell glo yn dipyn cryfach.

Dwylo pianydd wedyn a geir gan *Gŵyr*, yn llawn egni ac yn barod i ganu cerddoriaeth Debussy. Ond pam mai'r 'stôl' sy'n ysbrydoli'r pianydd? Rydw i fymryn yn amheus o'r sain gadwynog yn y llinell glo hefyd.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Neges ddigon syml sydd gan *Emrys*: hir oes i'r rhai hael a charedig, byr oes i bobl ddrwg a barus. Does dim byd newydd na chymhleth yma felly ond mae'n ei ddweud ag arddeliad, a steil!

Cawn gan *Gwylwr o'r Palmant* nodyn helaeth yn rhoi cefndir y gerdd, a diolch iddo am hynny. Mae'n hanes difyr a dirdynol am Frieda Schulze y gorfu iddi neidio o ffenestr ei fflat yn Bernauer Strasse, o Ddwyrain Berlin i'r Gorllewin, pan aeth y wal i fyny. Mae'r ddelwedd ohoni'n 'crogi', a'r gair mwys hwnnw, yn iasol – ond mae angen gwaith ar gystrawen ac ar ergyd yr esgyll.

Roedd eiddo *Donegal* yn un o englynion gorau a mwyaf gwreiddiol y gystadleuaeth. Pianydd arall sydd yma, ond plastrwr y tro hwn, yn canu'r piano yng ngorsaf St Pancras 'â'i gêr high-viz ar ei gôl' ac yn 'rhoi nes fod dim ar ôl'. Englyn crwn a delweddol.

Rydym ynghanol erchyllterau diweddar llain Gaza yng nghwmni *Meddygon heb ffiniau*, a hanes merch fach yn cael ei thynnu'n fyw o'r rwbel. Dw i ddim yn hoff o'r 'ti'r annwyl' annaturiol ac efallai fod angen twtio ar agoriad yr englyn, ond mae'r llinell glo yn ysgubol – un o linellau unigol gorau'r gystadleuaeth.

Ar gownt y llinell honno ar ei phen ei hun mae *Meddygon heb ffiniau*'n agos at y brig felly – ond mae englyn *Makaton* ar ei hyd yn fwy crwn, gorffenedig, ac unedig. Mae'r syniad yn un trawiadol hefyd: y dwylo'u hunain sy'n siarad fan hyn, siarad iaith arwyddion neu 'glebar fesul arwydd' fel y dywed y bardd wrth agor. Mae'r wrtheb yn y clo yn hyfryd, pan ddisgrifir 'miri iach stumiau rhwydd' sydd 'yn dwrw mewn distawrwydd'. Dyma fardd sydd wedi dewis ei destun yn ofalus ac wedi llwyddo i ddweud rhywbeth amdano yn drawiadol, yn wreiddiol ac yn gofiadwy – ac â thinc gobeithiol, llawen hefyd. Does dim amheuaeth mai i *Makaton* y rhoddir y wobr.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Cystadleuaeth 16: Cerdd rydd

Daeth pedair cerdd i law a ches fwynhad yng nghwmni pob un o'r pedwar bardd.

Archwilio atgofion gwahanol adegau o'i fywyd drwy gyfrwng y strydoedd a gerddodd a wna *Ffordd*: blynyddoedd ei blentyndod yn Aberystwyth, yn cerdded i gapel nad yw yno bellach. Teimlo'r newid a fu a wna. Yna symudwn i Gaerdydd yr oedolyn, a hen gapel y Crwys yn gyrchfan addoli, ac fe synia wrth fynd am y merthyron a ddienyddwyd gerllaw, ar groesfan Heol y Plwca. Dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i Fae Caerdydd, wedyn, yw'r olygfa olaf ond un, wrth i'r adroddwr synnu eto at y newid sydd wedi bod, a cheir diwedd glo wrth iddo grwydro'n bensynwr 'strydoedd un o gymoedd y de'. Myfyrdod tawel a chynnil sydd yma, ond efallai fod y mynegiant yn rhyddieithol ar brydiau ac fe hoffwn fod wedi gweld y gerdd yn adeiladu at ryw fath o uchafbwynt.

Atgofion o gyfnod penodol a gynheuir gan stryd *Bryn y Môr* hefyd, ond cyfnod y pandemig y tro hwn, a'r cyferbyniad rhwng clychau a chwerthin plant yn mynd i'r Ysgol Gymraeg cyn dyfodiad y pla, a'r 'stryd yn fud' wedyn. Gresynir wedyn fod rhaid dweud 'Shwmae' o bell drwy Teams a Zoom, a bod 'calon cymuned yn wag', ond ceir dyhead i 'gwtshio'n dynn' pan fydd y cyfan drosodd. Tybed a gyfansoddwyd y gerdd yn ystod y cyfnod hwnnw, ac a oes angen ei diweddarau rywsut erbyn hyn? Nid bod rheidrwydd i wneud hynny – ond rwy'n dyheu am ryw lun ar gymhlethdod neu dyndra ac yn cael yr ymdriniaeth â'r pwnc fymryn yn rhy simplistaidd.

Cawsom gerdd ar fydr ac odl gan *Bugeilyn* ac mae ei afael ar ei grefft yn dra chadarn, er bod angen edrych eto ar fydryddiaeth a chorffaniad ambell linell. Wedi dweud hynny mae'r canu yn swynol ac yn soniarus ar y cyfan, a cheir sawl delwedd unigol drawiadol. Rwy'n edmygu uchelgais ac arbrawf *Bugeilyn* am geisio sgrifennu rhywbeth gwahanol, ond gwaetha'r modd doedd dim digon o gliwiau yma i mi allu deall a dilyn yn iawn y naratif a gyflwynir, ac felly roedd y gerdd yn ei chrynswth braidd yn aneglur gennyf. Er hynny, mae'r clo yn gofiadwy ac annwyl.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Mae rhyw debygrwydd yng ngherdd *Briallen* i nifer o'r cerddi eraill: mae ar fydr ac odl yn debyg i *Bugeilyn*, ac yn hel atgofion am stryd benodol fel y tri arall. Ond efallai ei bod yn gwneud hynny'n well: yn un peth drwy ganolbwyntio ar fanylion. Mae'r mynegiant yn ddiaddurn a ffwrdd-â-hi, heb fod yn rhyddieithol, ac mae'r bardd yn llwyddo i gynnal y fydryddiaeth ar draws llinellau eitha hir. Cawn fynd ar daith tu ôl i'r rhes o dai lle treuliodd ei phlentyndod, wrth fyfyrion ar yr enwogion fu'n byw yno ar wahanol adegau (er, meddai rhwng cromfachau wrthym, 'na wyddwn ddim am hyn oll ar y pryd': Kate Roberts, Bryn Williams, a James Kitchener Davies. Cawn fanylion a myfyrdodau ar bob un ohonynt, cyn gorffen ar nodyn mwy personol: y tŷ pwysicaf oll, sef tŷ Mam-gu'r adroddwr. Does dim rhodres yma, dim byd trawiadol newydd na herfeiddiol ychwaith, ond mae rhyw gynildeb a hunanfeddiant tawel sy'n apelgar iawn: ac mae'r cyfan yn adeiladu tuag at y clo hwnnw. I *Briallen* felly y rhoddir y wobwr.

Cystadleuaeth 17: cerdd gaeth

Dau yn unig a fentrodd, ond mae'r safon yn uchel. Mae gan *Tomos* a *Heddwch yn y gweithle* ill dau afael gadarn iawn ar y gynghanedd a gallant wneud cryn gampau â hi. Arf yn eu dwylo yw'r gynghanedd yn hytrach na'i bod yn feistres arnynt. Dau englynwr sydd yma hefyd a'r ddwy gerdd yn ddilyniant o englynion unodl union. Yno y daw'r tebygrwydd i ben! Cerdd ysgafn, eitha swreal ac abswrdaidd sydd gan *Tomos*, yn llawn o gampau geiriol a chynganeddol. Cawn ein harwain drwy wythnos fesul diwrnod, gan gyfnewid lleoliad bob tro hefyd, o Flaenau i Gaerdydd, Merthyr, a hyd yn oed Ystrad Fflur. Nid oes rhyw ddweud mawr treiddgar na mewnwediad na dim felly, ond mae yma ddigon o hwyl a chwarae a chwerthin, a ches fwynhad yng nghwmni'r bardd, er i'r gerdd ar brydiau deimlo'n fwy o ymarferiad na dim arall.

Cywair cwbl wahanol sydd i gerdd *Heddwch yn y gweithle*, sy'n gresynu nad yw gwaith 'ond udo digalon' y dyddiau hyn, lle gynt y bu'r 'gweithle'n gerdd a gwerddon'. Oes, mae yma duedd i bregethu fymryn yn rhy lawdrwm, ac ychydig o ramanteiddio ar y gorffennol a 'mannau'r hen gymwynas'. Ond mae yma genadwri ac mae rhywbeth yn cael ei ddweud a'i ddweud yn dda. Ffolais ar y cwpled clo, sy'n casglu mai'n teuluoedd yw'r hyn a all ddod â llawenydd a



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

chysur inni ar ôl ein gwaith: 'ar eithaf ein hanaf ni, daw anwyliaid yn eli' – llinell glo wych.

Cystadlaeuaeth gref a braf fyddai gwobrwyo'r ddau, a'r ddau yn gystadleuwyr mor wahanol i'w gilydd. Yn wir, gallai *Heddwch yn y gweithle* wneud yn dda â dogn o ysgafnder crafog *Tomos* ar adegau; yn yr un modd, elwai *Tomos* o ddisgyblaeth *Heddwch yn y gweithle* a'r modd y myfyriodd ar ei destun. Yn y pen draw, eiddo *Heddwch yn y gweithle* yw'r sylwedd, ac eiddo yntau felly hefyd yw'r wobr.

Cystadleuaeth 18: Yr Emyn

Roedd hon yn gystadleuaeth boblogaidd, ac yn un dda hefyd. Roedd y safon yn wastad dros ben. Mae mân wendidau mewn nifer mawr o'r emynau, ond manion ydynt wir a rhai hawdd eu trwsio ym mwyafrif yr achosion. Byddai'n braf iawn gweld nifer o'r rhain yn cael eu trwsio a'u rhoi ar donau at iws yn fuan.

Efallai mai'r bai pennaf, os bai hefyd, oedd fod mwyafrif helaeth yr emynau yn *swnio fel emynau*. Hynny yw, roedd eu priod-ddull, eu geirfa, eu deunydd, yn debyg iawn iawn i'r emynau sydd gennym eisoes ac yn darllen fel efelychiadau ohonynt. Wrth gwrs mae rhywfaint o debygrwydd thematig a mydryddol i'w ddisgwyl, ond hwyrach fy mod wedi gobeithio am ychydig rhagor o ffresni a fflach. Serch hynny, mae'n berffaith amlwg fod gafael yr emynwyr hyn ar hanfodion yn grefft yn gadarn, ac mae'r cerddi yn hynod ganadwy drwy'r trwch.

Rwyf bron yn sicr mai'r un bardd a gyfansoddodd ddeuddeg o'r emynau a ddaeth i law: *Rhion, Betsan, Dilys, Isfoel, Rhion 2, Fflur, Tomi, Irfon, Teleri, Ruth, Hafan 1* a *Phillip*. Os wyf yn iawn, diolch i'r bardd am ei d(d)ycnwch ac am fod mor gynhyrchiol; teg dweud hefyd ei fod yn emynydd solet o ran mydryddiaeth a chreffft. Ond efallai y talai iddo ddefnyddio'i egni i weithio'n galetach ar un neu ddau ohonynt yn hytrach nag amlhau ceisiadau, gan sicrhau bod yr un neu ddau hynny wedyn yn disgleirio a phob gair yn ei le. O blith ei ymgeisiau, cefais flas arbennig ar emyn *Tomi*, efallai oherwydd ei fod yn emyn ar gyfer Gŵyl Ddewi ac felly ar gyfer achlysur penodol, ac yn fwy cofiadwy na rhai o'r lleill o'r herwydd.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Diolch nesaf i *Eithin Gleision*, *Cornel fach* a *Cofio*. Rhaid imi bwysleisio nad oes dim fel y cyfryw o'i le â'r rhain: maen nhw'n emynau da iawn a dim ond safon uchel y gystadleuaeth sy'n eu rhwystro rhag bod ymhlith y goreuon.

Mwynheais arfer *Eithin Gleision* o ailadrodd 'Diolch Arglwydd' ar ddechrau pob pennill, ond mae ambell bennill fel y trydydd yn rhy amwys ac amhenodol ac felly'n colli rhywfaint o'u hergyd. Efallai ar y llaw arall y byddai modd cweryla â chenadwri *Cornel fach* i ymneilltuo rhag y byd pan â pethau'n anodd, ond nid ar sail pethau felly y mae beirniadu cystadleuaeth farddoni, debyg. Hwyrach fy mod ar dir cadarnach wrth awgrymu mai mymryn yn anghyson/anhydryn yw corfannu'r amrywiol fersiynau o'r gytgan ac y câi cynulleidfa drafferth o bosib yn ffitio'r geiriau i'r dôn wrth ganu. Yna ces fy swyno gan emyn *Cofio* i blant; mae rhywbeth swynol ac annwyl iawn yma, ond efallai fod perygl i orsymleiddio'r dweud nes nad yw'n dweud digon. Mae plant yn ddigon abl i brofi ac i ddeall cymhlethdod.

Yn nes at y brig y mae dwy ymgais gan *Cawrdaf* a *Gredifael*, ac yn bardd sydd y tu cefn i'r ddwy mi gredaf. O'r ddau emyn, eiddo *Cawrdaf* sydd orau gennyf gan y teimlaf fod mwy o gyfoesedd yma ac ymgais i lunio emyn sy'n ymrafael â rhai o'n pryderon a'n heuogrwydd heddiw wrth deimlo ein bod wedi dinistrio'r byd a etifeddwyd gennym. Diolch am lusgo'r gystadleuaeth i'r unfed ganrif ar hugain!

Pererin, yn sicr, yw llais mwyaf unigryw a chyfoes y gystadleuaeth. Dyma'r unig emyn nad yw ar fydr pendant, rheolaidd, ond mae yma rhythm sicr ac odl hefyd. Yn y gytgan, yn enwedig, teimlais fod priodas dda rhwng yr hyn a ddywedir a'r tempo cynyddol sy'n gyrru'r emyn yn ei flaen. Efallai mai byr braidd yw'r gwaith yn ei gyfanrwydd a byddai rhagor o ddatblygiad at y diwedd yn dda, ond yn sicr gallaf glywed a dychmygu'r emyn hwn yn cael ei ganu mewn gosodiad cyfoes ac yn fwy addas i fand efallai nag i'r hen organ.

Fel *Tomi* uchod, cyfansoddodd *Siliwen* emyn ar gyfer achlysur penodol, sef priodas. Mae wastad angen deunydd newydd ar gyfer digwyddiadau o'r fath a byddai hwn yn emyn gwych i'w ychwanegu at y casgliad. Mae'r gyfeiriadaeth yn ysgafn ond yn addas, fel at win y briodas yng Nghana. Mae'r grefft a'r fydryddiaeth yn sicr, a'r strwythur yn adeiladu'n ddiogel o bennill i bennill i greu darlun crwn o ddyheadau a gobeithion yr awdur ar gyfer y pâr priod.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

Does dim sy'n syfrdanol o newydd am ymgais *Hafan 2*, ond prin iawn hefyd yw unrhyw wendidau. Mae'r emyn hwn yn llifo, yn canu, ac yn fachog o gofiadwy hefyd. Cryfder *Hafan* yw'r modd y mae'n adeiladu ei naratif o bennill i bennill; nid casgliad o syniadau a delweddau digyswllt sydd yma ond ymbil strwythuredig, fel dadl rethregol bron. Hoffais y symud naturiol o'r personol a'r unigol – y pechadur ar chwâl – yn yr ail bennill, tuag at y 'fintai ar ei thaith' yn y pennill clo. Os oes gwendid yma, hwyrach mai yn yr ail bennill y mae: teimlai braidd yn annisgwyl neu anghydnaws ddod ar draws 'preseb baban Mair' mewn emyn nad yw'n sôn fel arall am y Nadolig, ac efallai mai'r patrwm odli a gafodd ormod dylanwad braidd ar y dewis o'r gair 'gwâl' i ddisgrifio noddfa Duw. Ond fel arall dyma emyn lle y mae pob gair yn ei le.

Mewn cystadleuaeth mor boblog ac mor safonol, teimlais fod rheidrwydd arnaf bron i rannu'r wobr. Gyda diolch i bob cystadleuydd felly, yn gydradd drydydd mae *Cawrdaf*, yn ail mae *Tomi* a *Pererin*, ac yn rhannu'r wobr gyntaf mae *Hafan (2)* a *Siliwen*.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

19. Beirniadaeth Tlws yr Ifanc. (Rhyddiaith)

Ymgeisiodd pump yn y categori Rhyddiaith, ac y mae i bob un ei rinweddau.

Rwy'n hoffi stori natur *Treorllwyn* - ei symlrwydd sy'n apelio ataf. Mae *Nel* hefyd yn ymddangosiadol syml, yn defnyddio dyfais llais plentyn bach i gyfleu hynny. Gall greu ymdeimlad o arswyd cynyddol, ond nid yw'r stori fel petai'n mynd i unman yn y diwedd.

Amhendranrwydd y diwedd glo sy'n amharu ar waith *Jim* hefyd; er hynny, mae'n gallu ysgrifennu deialog yn fywiog, gan gyfleu'r tyndra rhwng sgwrs allanol a meddyliau mewnol cymeriad.

Rwy'n teimlo mai dechreuad stori sydd gan *Gelli*; mae yma ddarn o fyfyrddod, a llaw gelfydd yn datgelu'n raddol y mae'r cymeriad yn tueddu i ohirio pethau, yn weithredoedd ac yn benderfyniadau. Eto, nid oes yma wir ddiwedd glo. Yn sicr, byddai'r stori hon ar ei hennill o'i hymestyn, gan fod yma ysgrifennu trawiadol.

Pan ddown at *Paté*, gwelwn ddawn ar waith i greu cameo bychan, gan rywun sydd wedi deall hanfod ysgrifennu da, sef awgrymu yn hytrach na dweud. Mae cymaint mwy na'r hyn sy'n ymddangos ar yr wyneb yn sgwrs *Nel* a *Nerys* wrth iddynt baratoi'r cinio Nadolig. Os oes gwendid, tybiaf mai'r diwedd sy'n siomi rhywun, gan ei fod braidd yn ffwr-bwt. Deuparth gwaith yw ei ddechrau, ie - ond mae angen talu sylw i'r diwedd glo hefyd. Er hynny, y mae gwaith *Paté* yn darlunio'r testun 'Cysylltiad' (a'i ddiffyg) yn gelfydd iawn, ac y mae'n llawn haeddu Tlws yr Ifanc.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

19. Beirniadaeth Tlws yr Ifanc. (Barddoniaeth)

Ymgeisiodd pump yn y categori Rhyddiaith, ac y mae i bob un ei rinweddau. Rwy'n hoffi stori natur *Treorllwyn* - ei symlrwydd sy'n apelio ataf. Mae *Nel* hefyd yn ymddangosiadol syml, yn defnyddio dyfais llais plentyn bach i gyfleu hynny. Gall greu ymdeimlad o arswyd cynyddol, ond nid yw'r stori fel petai'n mynd i unman yn y diwedd.

Amhendrantrwydd y diwedd glo sy'n amharu ar waith *Jim* hefyd; er hynny, mae'n gallu ysgrifennu deialog yn fywiog, gan gyfleu'r tyndra rhwng sgwrs allanol a meddyliau mewnol cymeriad.

Rwy'n teimlo mai dechreuad stori sydd gan *Gelli*; mae yma ddarn o fyfyrddod, a llaw gelfydd yn datgelu'n raddol y mae'r cymeriad yn tueddu i ohirio pethau, yn weithredoedd ac yn benderfyniadau. Eto, nid oes yma wir ddiwedd glo. Yn sicr, byddai'r stori hon ar ei hennill o'i hymestyn, gan fod yma ysgrifennu trawiadol.

Pan ddown at *Paté*, gwelwn ddawn ar waith i greu cameo bychan, gan rywun sydd wedi deall hanfod ysgrifennu da, sef awgrymu yn hytrach na dweud. Mae cymaint mwy na'r hyn sy'n ymddangos ar yr wyneb yn sgwrs *Nel* a *Nerys* wrth iddynt baratoi'r cinio Nadolig. Os oes gwendid, tybiaf mai'r diwedd sy'n siomi rhywun, gan ei fod braidd yn ffwr-bwt. Deuparth gwaith yw ei ddechrau, ie - ond mae angen talu sylw i'r diwedd glo hefyd. Er hynny, y mae gwaith *Paté* yn darlunio'r testun 'Cysylltiad' (a'i ddiffyg) yn gelfydd iawn, ac y mae'n llawn haeddu Tlws yr Ifanc.

Tri a fentrodd i'r gystadleuaeth â'u cerddi. Mae clust dda gan y tri bardd ond teimlem yn gyffredinol eu bod wedi cael llai o hwyl arni na'r awduron rhyddiaith.

Braf oedd gweld dwy ymgais ar fydr ac odl, ac mae'n amlwg bod *Miri* a *Ffergi Lwyd* yn gallu ymglywed â gofynion rhythm ac odli yn fedrus. Sôn am y tristwch o golli cysylltiadau o bob math a wna *Miri* - 'colli ffrind, colli cariad neu golli ffydd'. Er nad yw hynny'n beth braf, ein hannog i geisio derbyn y realiti hwn a wna'r bardd a chwilio yn hytrach 'am gysylltiad miri'. Gwaetha'r modd, doedd hi ddim yn berffaith glir beth yw'r miri hwn y sonnir amdano a byddai wedi bod yn braf gweld y gerdd yn cael ei datblygu ymhellach i geisio cyfleu ei apêl.

Portread annwyl o wŷr o'r enw Michael Bach a gawn gan *Ffergi Lwyd*. Dysgwn am ei wreiddiau y tu hwnt i Gymru ond yna'i fagwraeth yn Nefyn, am ei bersonoliaeth 'chwarter call' ac am ei ddiddordeb mewn gwahanol foduron a thŵls. Er nad yw *Ffergi Lwyd* yn dweud hynny'n blaen, synhwyrwn mai taid



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

iddo neu iddi oedd y gŵr a ddarlunnir, ac mae'n bortread cynnes, annwyl a diffuant.

Efallai mai'r bardd mwyaf uchelgeisiol yw *Cynwyd*, sydd â cherdd fwy estynedig yn y wers rydd. Mae'r dweud yn fwy delweddol a throsiadol o bosib, er ei fod yn mentro ychydig yn rhy bell i dir haniaeth heb inni ddeall yn union beth a drafodir bob amser. Yma darllenwn am y golau yn mynd 'ar bererindod i'r tywyllwch. Cawn gyfarfod hefyd â cholomen sydd yn 'sganio'r tir â'i llygaid barcud'. Gallai cymysgu delweddau fel hyn fod yn ddryslyd braidd, neu gallai fod yn arwydd o fenter – mae'n biti nad oes digon o gliwiau yn y gerdd inni allu deall a barnu'n iawn. Wedi dweud hynny, eiddo *Cynwyd* yw'r canu mwyaf telynegol a delweddol o blith y tri. Doeddwn i ddim wir yn gweld y cysylltiad rhwng y gerdd ei hun a'r dyfyniad o *Animal Farm* Orwell ar frig y ddalen, ond y mae ddweud gafaelgar a dyfeisgar dros ben, fel pan ddisgrifir y golomen yn cyrraedd 'diben clogwyn / ei hamynedd', neu'r gwynt 'yn oernadu / fel cath gynddeiriog' cyn gweld 'Calfaria'n tyfu o flaen ei llygaid' – arbennig. O gynilo ychydig ac egluro rhywfaint ar y naratif, gallai *Cynwyd* fod yn gystadleuydd peryglus iawn.

O blith yr awduron rhyddiaith roedd *Jim* a *Pâté* ychydig yn uwch na'r lleill gen i. Mae gan *Jim* glust arbennig o dda at ddeialog ac at gyfleu golygfeydd credadwy a bachog gan grisialu pobl mewn ychydig eiriau; ychydig yn fwy aneglur yw ail hanner y stori a gallai wneud ag ailddrafftio er mwyn dewis yn well faint o gliwiau a gwybodaeth i'w rhannu â'r darlennydd, a phryd. Rhoes *Pâté* ar y llaw arall ddosbarth meistr inni mewn dweud tipyn mwy neu cryn dipyn yn llai o eiriau; cefais y cyfuniad o gynildeb ac eglurder croyw yn swynol iawn, gyda dogn dda o hiwmor craff at hynny hefyd. Llongyfarchiadau mawr felly i *Pâté* sydd yn llwyr haeddu'r wobwr mewn cystadleuaeth dda.